# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Casnewydd

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2017-18

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Casnewydd i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

## 1 Crynodeb gweithredol

Mae Casnewydd wedi cyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 10 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, roedd Casnewydd wedi cyflawni 7 yn llawn, 1 yn rhannol ac wedi methu â chyflawni 2.

Mae gwasanaeth llyfrgell Casnewydd ar y cyfan wedi gwella ei berfformiad yn ystod y flwyddyn gyntaf hon o'r chweched fframwaith, er bod y lefelau buddsoddi isel wedi parhau. Mae lefelau defnydd mewn sawl maes wedi gwella, gyda'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol bellach ymhlith yr uchaf fesul pen y boblogaeth yng Nghymru, er bod lefelau defnydd cyffredinol yn parhau'n isel o gymharu. Mae bodlonrwydd cwsmeriaid yn gyffredinol dda, gyda chanlyniadau arolwg yn dangos gwelliant ym mhob maes; mae bodlonrwydd â gwasanaethau TG, fodd bynnag, gryn dipyn yn is, gan adlewyrchu'r cyfyngiadau yn y ddarpariaeth cyfrifiaduron personol. Mae lefelau staffio yn parhau i fod yn destun pryder, gan gyfyngu ar gapasiti'r gwasanaeth, ac mae'r oriau agor ymhlith yr isaf yng Nghymru. Bydd gweithredu'r model newydd Canolbwynt Cymdogaeth i ddarparu gwasanaethau yn arwain at newidiadau; bydd effaith y rhain ar berfformiad i'w gweld yn y dyfodol.

- Cwblhawyd arolygon defnyddwyr ar gyfer oedolion a phlant ym mis Mawrth 2018, gan ddangos lefelau uchel o fodlonrwydd mewn rhai meysydd a lle i ddatblygu mewn eraill. Mae 92% o bobl ifanc o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu (wedi codi o 89% ym mis Mawrth 2016), ac mae 85% o oedolion yn credu ei fod wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau (wedi codi o 77%).

- Mae'r holl lyfrgelloedd sefydlog yn darparu'r ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, a chefnogaeth dda i iechyd a lles. Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol bellach ymysg yr uchaf yng Nghymru fesul pen y boblogaeth; mae'r nifer sy'n cael cymorth hyfforddiant anffurfiol hefyd wedi gwella.

- Cafwyd rhywfaint o welliant yn y lefelau defnydd, gyda mwy o bobl yn mynychu digwyddiadau / gweithgareddau, a nifer uwch o ymwelwyr corfforol, aelodau'r llyfrgell a benthycwyr gweithredol. Mae'r lefelau defnydd, fodd bynnag, yn gyffredinol islaw lefel y canolrif, ac mae ymweliadau fesul pen y boblogaeth yn parhau i fod yr isaf yng Nghymru.

- Mae'r gyllideb deunyddiau wedi dychwelyd i lefelau cyn 2016-17, ac er bod ymrwymiad i gynnal y lefelau buddsoddi presennol, nid yw'r targedau yn hyn o beth yn dal wedi'u cyrraedd.

- Nid yw'r ddarpariaeth cyfrifiaduron wedi newid, gyda'r perfformiad yn hyn o beth yn dal i fod yr isaf yng Nghymru; mae bodlonrwydd cwsmeriaid ag elfen hon y gwasanaeth yn

sylweddol is na’r meysydd eraill.

- Mae lefelau staff wedi’u cadw, a dim newid yn nifer y staff proffesiynol; fesul pen y boblogaeth cyfanswm y staff yw’r isaf yng Nghymru. Mae oriau agor hefyd yn is na’r lefelau a bennwyd.
- Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu o gymharu â 2016-17, er bod y gwariant fesul pen y boblogaeth yn parhau i fod yr isaf yng Nghymru.

# 2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae’r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau, a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn, ac Adran 3 yn rhoi asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod.

## 2.1 Hawliau craidd

Mae Casnewydd yn cyflawni pob un o’r 12 hawl graidd yn llawn. Mae gan y gwasanaeth broffiliau cymunedol ar gyfer pob un o’i lyfrgelloedd, a defnyddir y rhain yn sail i gynllunio. Mae cysylltiadau cryf â chydweithwyr yn y cyngor a mudiad yn y trydydd sector i sicrhau eu bod yn ymwybodol o’r gwasanaethau sydd ar gael, ac mae cyllideb farchnata fechan yn cael ei defnyddio i gefnogi gweithgarwch hyrwyddo penodol yn ystod Wythnos Genedlaethol Llyfrgelloedd. Gwneir defnydd helaeth hefyd o gyfrifon y cyngor ar y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo digwyddiadau a gweithgareddau llyfrgell. Mae’r gwasanaeth yn aelod hirsefydlog o gynllun rhanbarthol Books4U a bydd yn ymuno â’r system rheoli llyfrgell (LMS) Cymru gyfan yn 2018-19. Cynhelir Arolygon Defnyddwyr bob dwy flynedd a defnyddir y canlyniadau i lywio datblygiad y gwasanaeth.

## 2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O’r rhain, mae Casnewydd yn cyflawni 7 yn llawn, un yn rhannol ac yn methu â chyflawni 2 o’r dangosyddion.

| Dangosydd ansawdd | Cyflawni? | |
|---|---|---|
| DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol: | | Cyflawni’n llawn |
| a) Cymorth TGCh | ✔ | |
| b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth | ✔ | |
| c) Cymorth e-lywodraeth | ✔ | |
| d) Datblygu darllenwyr | ✔ | |
| DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles | | Cyflawni’n llawn |
| i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau | ✔ | |
| ii) Cynllun Llyfrau Llesol | ✔ | |
| iii) Casgliad penodol i iechyd a lles | ✔ | |
| iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd iach o fyw | ✔ | |
| v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles | ✔ | |
| DA 6 Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig | ✔ | Cyflawni’n llawn |

| Dangosydd ansawdd | Cyflawni? | |
|---|---|---|
| DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth | ✔ | Cyflawni'n llawn |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | Heb ei gyflawni |
| Derbyniadau fesul pen y boblogaeth | x | |
| neu Wariant ar ddeunyddiau fesul pen | x | |
| DA 10 Adnoddau Cymraeg | | Cyflawni'n llawn |
| % y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg | ✔ | |
| neu Wariant ar y Gymraeg fesul pen | x | |
| DA 11 Mynediad ar-lein: | | Cyflawni'n llawn |
| a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd | ✔ | |
| ii) Darpariaeth Wi-Fi | ✔ | |
| DA 12 Cyflenwi ceisiadau | | Cyflawni'n llawn |
| a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod | ✔ | |
| b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod | ✔ | |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau: | | Cyflawni'n rhannol |
| i) Staff fesul pen y boblogaeth | x | |
| ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth | x | |
| iii) Cymhwyster/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth | ✔ | |
| iv) Canran DPP | ✔ | |
| DA 16 Oriau agor fesul pen y boblogaeth | x | Heb ei gyflawni |

Ni fu newid ym mherfformiad Casnewydd o'i gymharu â blwyddyn olaf y pumed fframwaith o ran y dangosyddion ansawdd hynny y mae modd eu cymharu'n uniongyrchol.

## 2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei gael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1. Mae'r ffigyrau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf hon o'r fframwaith. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd yr awdurdod ei arolwg cwsmeriaid diweddaraf ym mis Mawrth 2018, yn unol â chanllawiau'r fframwaith a methodoleg arolwg CIPFA; derbyniwyd cyfanswm o 1,687 o ymatebion gan yr oedolion a holwyd, a 565 gan y bobl ifanc.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 92% | *4/6* | 73% | 94% | 97% |
| e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 85% | *5/7* | 38% | 90% | 95% |
| DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion: | 97% | *11/17* | 75% | 98% | 100% |

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i gael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn.  Cyflwynodd Casnewydd dair astudiaeth achos o'r fath:

- Enfys Casnewydd – gweithio gyda'r grŵp LGBT+ lleol ar gyflwyno a brandio casgliad Enfys; teimlai'r grŵp eu bod wedi'u cynnwys a'u cynrychioli o fewn arlwy'r gwasanaeth, ac mae'r gymuned LGBT+ wedi croesawu'r casgliad, gan ddarparu mynediad a chymorth, ac adnodd ar gyfer addysgu pobl yn ehangach.
- Newport People First – cydweithio â mudiad hunaneirioli ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu i'w cefnogi i ddefnyddio'r dechnoleg yn y llyfrgell. Rhoddodd y staff arweiniad yn ystod cyfres o ymweliadau, a lluniodd y grŵp fideo a llyfryn â chyfarwyddiadau mewn lluniau i helpu eraill. Mae aelodau'r grŵp nawr yn gallu defnyddio'r llyfrgell yn annibynnol, a thrwy'r prosiect maent wedi cael hyder wrth ddefnyddio'r dechnoleg.
- Ffocws Cymunedol – profiad un unigolyn o ddefnyddio'r llyfrgell, gan ddangos ei heffaith ar bobl leol a'r gymuned, trwy'r adnoddau, y grwpiau a'r gweithgareddau sydd ar gael, ac fel ffynhonnell i wybodaeth leol a lle i gwrdd â ffrindiau.

## 2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Casnewydd ar gyfer 2017-18. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Pan fo modd, mae ffigyrau a roddwyd ar gyfer blwyddyn olaf y pumed fframwaith hefyd wedi'u cynnwys er hwylustod cymharu; fodd bynnag, mewn rhai achosion mae newid yn y diffiniad neu gyflwyno mesurau ychwanegol yn golygu nad yw cymharu yn ymarferol. Mae dangosyddion 'fesul pen y boblogaeth' wedi'u cyfrifo fesul 1,000 y boblogaeth, oni nodir yn wahanol.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf | *2016/17* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | | |
| a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd: | 65% | 5/7 | 24% | 83% | 94% | *61%* |
| c) iechyd a lles | 49% | *6/7* | 33% | 65% | 95% | *38%* |
| d) lle diogel a chroesawgar | 96% | *5/7* | 90% | 98% | 100% | *95%* |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau | 91% | *4/7* | 88% | 91% | 98% | *89%* |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da' | 97% | *6/7* | 93% | 99% | 100% | *95%* |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da' | 79% | *5/6* | 74% | 86% | 94% | *76%* |
| d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol; | 95% | *6/7* | 93% | 97% | 99% | *92%* |
| e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau | 9.2 | *1/6* | 8.5 | 9.1 | 9.2 | *9.4* |
| DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr | | | | | | |
| a) mynychwyr fesul pen | 82 | *4/22* | 10 | 32 | 238 | *59* |
| c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen | 113 | *17/22* | 15 | 199 | 473 | *148* |
| DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen y boblogaeth | 211 | *12/22* | 82 | 228 | 684 | *160* |

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf | *2016/17* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DA 8 Defnyddio'r llyfrgell | | | | | | |
| a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth | 2,501 | *22/22* | 2,501 | 4,047 | 7,014 | *2,453* |
| b) rhith-ymweliadau fesul pen | 777 | *13/22* | 243 | 866 | 2,211 | *856* |
| c) benthycwyr gweithredol fesul pen | 128 | *18/22* | 100 | 154 | 229 | *117* |
| DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen * | 22 | *20/22* | 4 | 68 | 663 | |
| DA 11 Mynediad ar-lein | | | | | | |
| b) cyfrifiaduron fesul pen^ | 5 | *22/22* | 5 | 9 | 14 | *5* |
| c) % yr amser ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd | 29% | *10/22* | 14% | 27% | 67% | *32%* |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau | | | | | | |
| (v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr | 47 | *9/21* | 3 | 31 | 196 | *41* |
| b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr | 1,518 | *10/21* | 40 | 1,346 | 11,939 | *1,795* |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant fesul pen | £7,047 | *21/21* | £7,047 | £11,915 | £17,771 | *£6,745* |
| b) % ar staff | 57% | *16/21* | 44% | 63% | 75% | *60%* |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 21% | *2/21* | 4% | 13% | 25% | *25%* |
| % ar offer ac adeiladau | 14% | *3/21* | 0% | 4% | 20% | *4%* |
| % ar gostau gweithredol eraill; | 7% | *19/21* | 0% | 18% | 37% | *11%* |
| c) gwariant cyfalaf fesul pen | £0 | *14/20* | £0 | £338 | £17,432 | *£0* |
| DA 15 Cost net am bob ymweliad | £1.59 | *14/21* | £1.24 | £1.82 | £2.41 | *£1.93* |
| DA 16 Oriau agor# | | | | | | |
| (iii) a) % oriau cau mannau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny | 0.03% | *12/21* | 0.00% | 0.02% | 1.28% | *0.04%* |
| b) % arosfannau llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd | *amherthnasol* | | 0.00% | 0.35% | 11.24% | *amherthnasol* |

** fesul pen y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg*

*^ am bob 10,000 o'r boblogaeth breswyl*

*# Mae'r safleoedd yma wedi'u troi o chwith, sef mai 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf (perfformio orau).*

## 3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad (pan fo'n berthnasol) â rhai blwyddyn olaf y pumed fframwaith (2016-17).

### 3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Cynhaliodd Casnewydd ei arolygon defnyddwyr (oedolion a phlant) ym mis Mawrth 2018, gan adrodd gwelliant ar yr arolygon a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2016 o dan y pumed fframwaith. Mae lefelau bodlonrwydd â'r gwasanaeth yn uchel ar y cyfan, er bod cwymp amlwg mewn perthynas â chyfleusterau TG. Mae'r holl lyfrgelloedd sefydlog yn cynnig yr ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, a chefnogaeth dda i iechyd a lles, gyda'r gwasanaeth llyfrgell wedi cael statws Dementia Gyfeillgar. Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol wedi cynyddu dros 40% ers 2016-17, ac erbyn hyn mae ymhlith yr uchaf yng Nghymru; nododd 97% o'r rhai a arolygwyd fod yr hyfforddiant hwn wedi eu helpu i gyflawni eu hamcanion. Mae'r niferoedd sydd wedi cael cymorth trwy hyfforddiant anffurfiol hefyd wedi gwella dros y cyfnod.

### 3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Casnewydd yn parhau i gyrraedd y targed ar gyfer mynediad rhwydd i fannau gwasanaeth, a chynhelir gweithgareddau / digwyddiadau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig ym mhob llyfrgell sefydlog. Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau wedi'u trefnu gan y llyfrgell wedi parhau i gynyddu yn 2017-18 ac maent bellach yn agos at y canolrif. Mae ymweliadau corfforol, aelodaeth o'r llyfrgell a nifer y benthycwyr gweithredol hefyd wedi codi, er bod nifer yr ymwelwyr yn parhau i fod yr isaf yng Nghymru fesul pen y boblogaeth. Mae perfformiad mewn perthynas â'r defnydd ar ddeunyddiau yn gymysg, gyda chynnydd mewn benthyciadau plant a lawrlwythiadau electronig, ond gostyngiad yn nifer y benthyciadau llyfrau oedolion – mae'r defnydd yma hefyd yn gyffredinol islaw'r canolrif.

### 3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Mae'r gyllideb deunyddiau wedi gostwng, fel y disgwylid yn dilyn buddsoddiad unigol untro yn 2016-17, ond mae ymrwymiad gan y cyngor i gynnal y gyllideb ar y lefelau presennol. Er bod y gwasanaeth wedi gallu cynnal lefelau derbyniadau, mae'r rhain yn dal i fod yn is na'r gofynion a bennwyd ac ni chyflawnir DA 9 o ganlyniad. Yn gyfrannol, cadwyd y buddsoddiad mewn adnoddau i blant a deunyddiau yn y Gymraeg, ac mae DA 10 yn dal i gael ei gyflawni. Mae perfformiad mewn perthynas â chyflenwi ceisiadau (DA 12) hefyd yn bodloni lefelau'r targed, gyda pheth tystiolaeth o welliant. Nid yw'r ddarpariaeth cyfrifiaduron wedi newid, gyda nifer y cyfrifiaduron yn dal i fod yr isaf yng Nghymru fesul pen y boblogaeth, a bodlonrwydd gydag elfen hon y gwasanaeth yn amlwg yn is na meysydd eraill. Cafwyd gostyngiad bychan yn y defnydd ar TGCh, tuedd a welwyd hefyd yn y rhan fwyaf o wasanaethau llyfrgell eraill.

### 3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Yn gyffredinol, mae'r staff wedi'u cadw ar lefelau 2016-17, gyda nifer y staff proffesiynol heb newid. Mae nifer y staff cyffredinol fesul pen y boblogaeth yn parhau i fod yr isaf yng Nghymru, ac mae hyn yn dal i fod yn destun pryder i ddatblygiad a chapasiti'r gwasanaeth. Mae yma arweinyddiaeth â chymwysterau, ac mae'r gwasanaeth yn bodloni'r gofynion mewn perthynas â hyfforddi a datblygu staff. Er bod nifer y gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda'r gwasanaeth wedi codi, mae cyfanswm eu cyfraniad wedi gostwng, gydag oddeutu 47 o wirfoddolwyr yn cyfrannu tua 32 awr yr un. Caiff yr holl wirfoddolwyr hyfforddiant i'w cyflwyno i'r gwasanaeth yn ogystal â hyfforddiant priodol i'w rôl.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu o gymharu â 2016-17, er bod y buddsoddiad cyfartalog yn y gwasanaeth llyfrgell fesul pen y boblogaeth yn parhau i fod yr isaf yng Nghymru. Mae oriau agor hefyd wedi cynyddu ychydig, gan adlewyrchu adolygu'r oriau mewn dwy lyfrgell gangen, er bod perfformiad yn dal i fod gryn dipyn yn is na'r lefelau a bennwyd.

## 4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad blynyddol, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Adroddodd Casnewydd ar yr aliniadau rhwng ei Strategaeth Llyfrgell 2017-2020, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a 'Symud Cymru Ymlaen', gan nodi chwe blaenoriaeth allweddol ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r naratif yn dangos sut mae'r gwasanaeth yn cyflawni yn erbyn y nodau strategol hyn: cefnogi llythrennedd; cynhwysiant digidol; iechyd a lles; mynediad i wybodaeth; a gwella ac effeithlonrwydd gwasanaethau.

## 5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ganlynol, soniodd Casnewydd am ei ffocws parhaus ar ddatblygu partneriaethau o fewn y cyngor ac yn ehangach. Nodir hefyd yr angen i arloesi a gweithio'n effeithlon, gan ddefnyddio technoleg i ateb y newid yn y galw gan gwsmeriaid. Mae datblygiadau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn canolbwyntio ar weithredu model Canolbwynt Cymdogaeth, y bydd gwasanaethau llyfrgell yn rhan annatod ohono.

## 6 Casgliad

Mae gwasanaeth llyfrgell Casnewydd ar y cyfan wedi gwella ei berfformiad yn ystod y flwyddyn gyntaf hon o'r chweched fframwaith, er bod y lefelau buddsoddi isel wedi parhau. Mae lefelau defnydd mewn sawl maes wedi gwella, gyda'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol bellach ymhlith yr uchaf fesul pen y boblogaeth yng Nghymru, er bod lefelau defnydd cyffredinol yn parhau'n isel o gymharu. Mae bodlonrwydd cwsmeriaid yn gyffredinol dda, gyda chanlyniadau arolwg yn dangos gwelliant ym mhob maes; mae bodlonrwydd â gwasanaethau TG, fodd bynnag, gryn dipyn yn is, gan adlewyrchu'r cyfyngiadau yn y ddarpariaeth cyfrifiaduron personol. Mae lefelau staffio yn parhau i fod yn destun pryder, gan gyfyngu ar gapasiti'r gwasanaeth, ac mae'r oriau agor ymhlith yr isaf yng Nghymru. Bydd gweithredu'r model newydd Canolbwynt Cymdogaeth i ddarparu gwasanaethau yn arwain at newidiadau; bydd effaith y rhain ar berfformiad i'w gweld yn y dyfodol.